

Dyddiad:	22 Mai 2002
Amser:	2.00 – 5.30pm
Lleoliad:	Ystafell Pwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Teitl:	Cyfleoedd a Heriau am Ddatblygiad y Diwydiant Pren yng Nghymru i'r Dyfodol.

Pwrpas y Papur

Fe wahoddir y pwyllgor i ystyried cyfleoedd a heriau am ddatblygiad y diwydiant pren yng Nghymru.

Argymhellion

Mae llawer o destunau cydgysylltiedig ynghlwm wrth y papur y byddai rhaid eu datrys ar yr un pryd. Fel cam cyntaf, awgrymir y dylai'r Comisiwn Coedwigaeth ddatblygu astudiaeth adnoddau a fyddai'n archwilio cynhyrchiant pren ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ar ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac o goetiroedd preifat, a hefyd y canlyniadau tebygol o gyd-gynhyrchion o'r gweithfeydd prosesu pwysicaf yng Nghymru. Gellid defnyddio'r data hyn i ddatblygu strategaeth i annog ymgymerydd cynhyrchu trydan a gwres i ddefnyddio'r adnoddau hyn fel cyflenwad sylfaenol, o bosibl gan ddefnyddio cnydau ynni a dyfir ar ffermydd i gynnig defnyddiau biomas cyflenwi.

Amseru

Nid oes unrhyw faterion amserau penodol.

Cefndir

Mae tua 230,000 hectar o goetir yng Nghymru, 128,000 ohono'n eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru ac o dan reolaeth asiantaeth y Comisiwn Coedwigaeth, Menter Coedwigaeth. Ar hyn o bryd, mae'r coetiroedd hyn yn cynhyrchu cyfanswm o dua 1.3 miliwn o fetrau ciwb (m³) o pren y flwyddyn. O'r 1.3 miliwn m³ hyn, ardystir tua 1 miliwn m³ yn annibynnol fel cynnyrch coetiroedd a reolir yn gynaliadwy.

Mae cynhyrchiad a rheolaeth y coetiroedd hyn yn cynnal tua 4000 o swyddi, (yn bennaf yn yr ardaloedd gwledig) gan chwistrellu tua £61 miliwn o incwm gwaradwy i mewn i economi Cymru (Astudiaeth Lluosogion y Comisiwn Coedwigaeth/Ysgol Fusnes Caerdydd, 1999). Ceir hefyd effeithiau lluosogol ehangach gan lawer o'r ddarpariaeth am hamdden a gynigir gan Fenter Coedwigaeth.

Er bod coetiroedd y sectorau preifat a chyhoeddus fel y cyfryw yn cynhyrchu pren, maent yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol ar y farchnad. Mae Menter Coedwigaeth yn rhedeg system rhagdybio a chynllunio cynhyrchiant am y coetiroedd maent yn eu rheoli sydd yn ei gwneud yn bosibl iddynt gynnig

rhagddywediad amlinellol o'r cnwd am yr 20 mlynedd nesaf at ei gilydd ynghyd â rhagddywediad manwl am y pum mlynedd nesaf. Bu'r rhagddywediad hwn ar y cyd ag ymrwymiad Menter Coedwigaeth y bydd y maint hwn o bren ar gael heb gymryd i ystyriaeth yr amgylchiadau economaidd cyfredol yn sail i ddiwydiant prosesu pren Cymru. Yn groes i hyn, bu tyfwyr pren yn y sector preifat yn gyffredinol yn fanteiswyr ar y farchnad, gan gynnig pren pan fyddai amgylchiadau'r farchnad ar eu gorau er mwyn mwyafu incwm.

Mae'n werth nodi hefyd bod llawer o'r diwydiant prosesu pren yn gyd-gysylltiedig, yn nhermau perchenogaeth a chynnyrch fel y cyfryw. Er enghraifft gwerthir llawer o'r asglod pren a gynhyrchir fel is-gynnyrch melinau llif yng Nghymru ymlaen i UPM Shotton am gynhyrchu papur neu i Kronospan yng Nghastell-y-Waun am gynhyrchu Ffibrwrdd Dwysedd Canolig (FfDC/MDF).

Effeithiau Newid ar y Farchnad

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi cymorthdal i UPM Kymmene i drosi ei felin papur yn Shotton i ddefnyddio 100% o ffibr ailgylch o dan y cynllun WRAP, mae UPM wedi datgan yn ddiweddar na fydd eu melin yn defnyddio pren a gynhyrchir o goedwigoedd Cymru fel ffynhonnell ffibr am gynhyrchu papur o ddiwedd 2003 ymlaen.

Mae colli'r farchnad hon yn golygu goblygiadau difrifol i ddiwydiant coedwig yng Nghymru sydd eisoes yn fregus. Mae Menter Coedwigaeth yn cyflenwi neu yn cynnig trwy gyflenwyr eraill tua 150,000 o dunelli o grwnbren bach y flwyddyn i Shotton, gydag incwm o dua £1,500,000 yn tarddu o'r ffynhonnell hon. Effeithir yn llai uniongyrchol ar dyfwyr pren yn y sector preifat gan y colled o'r farchnad arbennig hon gan eu bod yn cyflenwi meintiau llai iddi (tua 30,000 o dunelli'r flwyddyn). Ond byddant yn cael eu heffeithio gan yr effaith 'bwrw ymlaen' ar y farchnad pren cartref ehangach. Mae effaith y costau uwch hyn ar berchnogion melinau llif yn arwain at leihad ym mhris y defnydd crau y gall y melinau llif fforddio ei dalu i dyfwyr am lifgyffion sydd yn ei dro'n peri i dyfwyr ddod i'r casgliad bod parhau i deneuo eu coedwigoedd a'u coetiroedd yn aneconomaidd. Caiff hyn effeithiau economaidd, bioamrywiaeth a chymdeithasol sylweddol.

Ond mae'r effaith bosibl ar felinau llif yn achos mwy o bryder byth na hyn hyd yn oed. Mae tua 40% o bob llifgyff a brosesir yng Nghymru'n droi'n is-gynnyrch, fel arfer asglod pren. Ar hyn o bryd defnyddir tua 40% o'r cyd-gynnyrch hwn fel defnydd crau melin bapur Shotton, a chaiff y gweddill ei allforio neu ei ddefnyddio gan felinau bwrdd eraill.

Er ei bod yn debygol y bydd allforio'n parhau, bydd rhaid i'r asglod a chaiff eu bwrw o'u lle gan y ffibr ailgylch cymorthdaliedig yn Shotton fynd ar y farchnad bwrdd is ei gwerth, marchnad sydd eisoes yn cael ei gorlenwi, a bydd hyn yn ei dro yn arwain at leihad pellach ym mhris asglod pren i'r math raddau fel prin y bydd yr incwm o gyd-gynhyrchion yn cwrdd â chostau cludiant. Bydd hyn yn gosod bwrn economaidd difrifol ar felinau llif sydd eisoes yn dioddef wrth iddynt geisio ymdopi â chystadleuaeth cynhyrchwyr pren tramor ar farchnad sydd bellach yn un fyd-eang.

Fel y trafodwyd eisoes, mae'r diwydiant coedwigaeth yng Nghymru yn cyflogi rhyw 4000 o bobl ar hyn o bryd, gan greu tua £61 miliwn y flwyddyn o incwm gwariadwy i economi Cymru trwy'r gyflogaeth hon. Bydd unrhyw ddirywiad sylweddol yn y gweithgaredd hwn yn effeithio'n anghymesur ar lawer o ardaloedd gwledig mwyaf difreintiedig Cymru. Hefyd bydd colli incwm a marchnadoedd yn perswadio tyfwyr i beidio â rheoli eu coetiroedd. Mae gweithgareddau cynnal a chadw cost uchel ond hanfodol megis teneuo ac eraill yn debygol o gael eu gohirio neu eu hesgeuluso ar adeg pan fo Strategaeth Coetir Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Coetiroedd i Gymru', yn ymdrechu i godi safon rheolaeth coetir yng Nghymru.

Byddai'n eironig y tu hwnt pe byddai menter a fwriadwyd i gadw papur gwastraff allan o dirlenwi am resymau amgylcheddol yn esgor ar leihad yng ngwerth bioamrywiaethol coetiroedd Cymru trwy leihad yng ngweithgaredd rheoli.

Cyfleoedd y Farchnad

Ond mae posibiliad am gyfle arall yma. Mae 210,000 o dunelli o bren (60,000 o dunelli o asglod a 150,000 o dunelli o grwnbren bach) yn cyfateb yn fras i 26 megawat o drydan y flwyddyn (ar y sail bod tunnell yn golygu awr megawat o drydan) a 50 megawat o wres. Gall y defnydd hwn wneud cyfraniad gweladwy i gynhyrchiant ynni gwyrdd yng Nghymru. A hefyd, os bydd amgylchiadau'r farchnad yn ddigonol ddeniadol, gallai pren o'r sector preifat gynyddu'r adnoddau sydd ar gael yn bellach byth. Ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw sicrwydd y bydd pris y farchnad am danwydd pren gwryfol cyfuwch â'r hyn a geir ar hyn o bryd gan Shotton a'r proseswyr crynswth eraill.

Rhaid trechu llawer o rwystrau cyn y gellid gweithredu'r syniad hwn, nid yn lleiaf y testun o gynllunio a lleoli'r gweithfeydd i ddefnyddio'r defnyddiau hyn. Eto i gyd, mae argaffaeledd posibl y pren hwn yn cynnig cyfle sylweddol i gynhyrchwyr ynni gan y gallai warantu'r cyflenwad o danwydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol cyn belled ag y mae meintiau'r pren a gynhyrchir o coetiroedd y Cynulliad dan sylw, gan y gallai'r Cynulliad orchymyn i Fenter Coedwigaeth gynnig y pren hwn i gynhyrchwyr ynni a fyddai'n barod i dalu pris economaidd. Mae llawer o fentrau biomas yn methu gan fod cefnogwyr ariannol yn mynnu cyflenwad gwarantiedig o danwydd. Bu hyn yn anodd ei gyrraedd yn y gorffennol gan yr oedd marchnadoedd eraill yn bodoli a gynigiai prisiau mwy deniadol. Ond mae hyn yn anhebygol o fod yn wir am yn hir o hyn allan.

Casgliadau

Mae'n debygol y byddai Menter Coedwigaeth, trwy gyflenwi pren am ynni adnewyddadwy o goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf yn cwrdd â'i chostau am gynhyrchu a chyflenwi'r defnyddiau hyn. Ond ymddengys y byddai'r buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach a fyddai'n deillio o ddatblygiad y farchnad hon yn awgrymu y byddai'n werth gwneud colledion ar y cynhyrchiant hwn dros y cyfnod byr er mwyn datblygu marchnad ynni adnewyddadwy. Dyma rai o'r buddion posibl a allai darddu o droi'r syniad hwn yn wirionedd:

- Byddai marchnad newydd am y defnydd crau hwn yn diogelu llawer o'r swyddi hynny a fygythir ar hyn o bryd yn ardaloedd gwledig Cymru.
- Byddai gweithfeydd ynni newydd yn defnyddio'r defnyddiau hyn a gynhyrchir yn gynaliadwy yng Nghymru, yn cyfrannu tuag at dargedau Kyoto i leihau dibyniaeth ar danwydd ffosil ac ynni niwcliar. Byddai polisi o'r math hefyd yn cefnogi ymrwymadau Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan Adran 121 Deddf Llywodraethu Cymru.
- Byddai datblygu'r agwedd hwn yn hwyluso trosglwyddiad technoleg i Gymru - byddai dod mewn â thechnoleg flaengar yn cynnig cyfle i godi lefel sgiliau'r gweithlu gwledig a chyfleoedd am effeithiau lluosogol ehangach wrth i'r dechnoleg ddatblygu o fewn Cymru.
- Byddai gwerthoedd bioamrywiaeth yn llawer o goetiroedd Cymru'n parhau i gael eu mwylhau o dan reolaeth egniol.
- Byddai datblygu cynlluniau gwres sydd yn defnyddio'r tanwydd hwn yn lleihau dibyniaeth llawer o ardaloedd ar danwydd anghynaliadwy megis olew ac LPG.

Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r argymhellion ac awgrymu ffyrdd o fynd â nhw yn eu blaen.

**Y Comisiwn Coedwigaeth
Mai 2002**